**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21ain Mawrth 2011**

## DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD O'R PEIRIANNAU ARBENNIG

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Rhoi diweddariad i Aelodau am y datblygiadau a gweithrediad yr Adolygiad o'r Peiriannau Arbennig.

## CEFNDIR

2 Bydd Aelodau'n cofio, fel rhan o'r broses Cynllunio i Leihau Risg, yr ymgymerwyd ag adolygiad o'r ddarpariaeth o beiriannau arbennig yn 2003/4 gyda'r amcan o wella fflyd y Gwasanaeth yn y tymor hir.

3 Mae hyn wedi arwain at nifer o newidiadau arwyddocaol i beiriannau arbennig, ac o ganlyniad, ymgymerwyd ag adolygiad o gynlluniad a gosodiad peirannau tân safonol. Canlyniad hyn yw bod cynllun newydd, mwy cul o beiriant wedi cael ei brynu ar gyfer y rhaglen amnewid gyfredol.

## GWYBODAETH

### Uned Achub Technegol

4 Mae gan yr holl beiriannau tân safonol rheng flaen yr offer hydrolig diweddaraf sy'n gwella'r gallu i achub. Mae'r pedwar Tendr Argyfwng blaenorol, anfonwyd i bob gwrthdrawiad traffig ar y ffordd lle'r oedd person yn sownd, wedi cael eu haddasu i wella eu galluoedd.

5 Mae dau o’r cyn Dendrau Argyfwng wedi cael eu trosi’n Unedau Achub Technegol i’w defnyddio mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd gyda cherbydau mawr, fel bysiau a cherbydau nwyddau mawr. Mae’r rhain wedi eu lleoli yn Wrecsam a Chaernarfon.

6 Mae un Tendr Argyfwng wedi cael ei drosi’n Uned Cefnogi Digwyddiad i ddarparu trefniadau lles mewn digwyddiadau mawr a hir a bydd wedi ei leoli yn yr Wyddgrug.

7 Mae un Tendr Argyfwng wedi cael ei ddefnyddio fel uned achub gyda rhaff ac achub anifail ac mae wedi ei leoli ym Mae Colwyn.

## Peiriannau Deuddiben

8 Mae’r peiriannau deuddiben wedi eu cynllunio i ddarparu gallu mynediad cyfyngedig i ddelio gyda thanau adran (adeiladau) mewn lleoliadau cefn gwlad sy’n anodd eu cyrraedd yn ogystal â gallu oddi ar y ffordd i ddelio gyda thanau mynydd/eithin/coedwig.

9 Mae’r chwe pheiriant deuddiben wedi cyrraedd y camau terfynol o gael eu cyflwyno ar draws ardal y Gwasanaeth, sy’n cynyddu’r nifer o’r cerbydau amlbwrpas yma sydd gan y Gwasanaeth i ddeg.

10 Yn dilyn profiadau yn ystod yr amodau tywydd drwg, bydd y Gwasanaeth yn cynnal cronfa strategol o ddau gerbyd gyriant pedair olwyn. Bydd y gronfa hon yn cael ei chymryd o'r cerbydau gafodd eu datgymosiynu fel rhan o’r strategaeth peiriant Dau Ddiben.

## Peiriannau gydag Ysgol ag Esgynlawr

11 Yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod o fabwysiadu safon 30 munud i’r Peiriannau gydag Ysgol ag Esgynlawr, mae nifer o opsiynau yn cael eu llunio i fforio lleoliadau yn y dyfodol ar gyfer Peiriannau gydag Ysgol ag Esgynlawr y Gwasanaeth yn llawn. Bydd yr opsiynau yma’n dod 'nôl ger yr Awdurdod cyn diwedd bywyd gweithredol y pedwerydd peiriant yn 2012.

## Argymhelliad

12 Fod Aelodau’n nodi cynnwys yr adroddiad.